YSGOL GYMRAEG CWMBRÂN
Cawsom Iaith i'w Chadw

# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen,
NP44 4HB.

Ffôn/Telephone: 01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
Twitter : @YGCwmbran
Schoop: 10319

**Pennaeth/Headteacher: Miss C Evans**

25/05/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,
*Dear Parent / Guardian,*

**<u>DATHLU 30 MLYNEDD ERS AGORIAD YSGOL GYMRAEG CWMBRÂN</u>**

Agorwyd yr ysgol fel Ysgol Fabanod ac Iau ym mis Medi 1991. Mae llawer wedi newid yn yr ysgol yn ystod y deng mlynedd ar hugain ers hynny a gobeithiwn ddathlu'r garreg filltir bwysig hon gyda'n disgyblion mewn cyfres o ddathliadau yn ystod yr hanner tymor nesaf. Bydd y rhain yn cynnwys prosiect celf sy'n cynnwys pob un o'n disgyblion, partïon a ffilm fer.

Ein bwriad oedd cynnwys cymuned gyfan yr ysgol, aelodau o'r gorffennol ac aelodau cyfredol. Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau a'r canllawiau gweithredol cyfredol, ni fydd hwn yn bosibl. Fodd bynnag, byddwn yn rhannu pob digwyddiad gyda chi.

**<u>GWAITH CARTREF DROS HANNER TYMOR I BOB DISGYBL</u>**
Mae angen eich cymorth arnom ar gyfer un o'n prosiectau. Yn ystod gwyliau hanner tymor, a allech chi helpu'ch plentyn i gasglu dwy neu dair carreg esmwyth, sy'n 10cm neu fwy o hyd a lled? Bydd angen y rhain ar gyfer un o'r prosiectau creadigol y byddwn yn ei wneud. **Yn ogystal, hoffem i bob disgybl Cyfnod Sylfaen dynnu llun o'u profiad / atgof gorau yn yr ysgol. Dylai disgyblion Cyfnod Allweddol 2 hefyd dynnu llun sy'n dangos eu hoff brofiad / atgof ac ysgrifennu esboniad byr yn Gymraeg oddi tano.**

Diolch yn fawr am eich cymorth.

***<u>CELEBRATING 30 YEARS SINCE THE OPENING OF YSGOL GYMRAEG CWMBRÂN</u>***

The school was opened as an Infant and Junior School in September 1991. Much has changed at the school in those thirty years and we hope to celebrate this important milestone with our pupils in a series of celebrations during the next half term. These will include an art project involving all of our pupils, parties and the making of a short film.

It was our intention to involve the whole school community, from the past and present. Unfortunately, due to the current restrictions and operational guidance, this will not be possible. However, we will be sharing all events with you.

***<u>HOMEWORK OVER HALF TERM FOR ALL PUPILS</u>***
We need your assistance for one of our projects. During the half term break, could you please help your child to gather two or three smooth stones whch are 10cm or more in length and width? These will be needed for one of the creative projects we will be undertaking. **In addition we would like all Foundation Pupils to draw a picture of their best experience/memory at the school. Key Stage 2 pupils should also draw a picture depicting their favourite experience/memory and write a short explanation in Welsh underneath.**

Many thanks for your assistance.

Yn gywir / Yours sincerely,

*C N Evans*
**C N Evans**
**Pennaeth/Headteacher**